WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Ionawr 2014
www.wao.gov.uk

# Cyflogau a Phensiynau Uwch Swyddogion
## **Cyngor Sir Penfro**
Adroddiad er Budd y Cyhoedd

Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at benderfyniad Cyngor Sir Penfro a oedd, yn fy marn i, yn anghyfreithlon. Ni all y Cyngor ddefnyddio ei bwerau i bennu taliad cydnabyddiaeth rhesymol er mwyn osgoi neu leihau effaith deddfwriaeth pensiynau. Bu methiannau hefyd o ran trefniadau llywodraethu ac anghysondebau yn y prosesau i bennu cyflogau uwch swyddogion sydd hefyd yn golygu bod y penderfyniad yn anghyfreithlon.

Paratowyd yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd yn unol ag adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb mewn perthynas ag unrhyw swyddog, aelod neu unrhyw berson arall yn unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Cefais gymorth Richard Harries a John Dwight, aelodau o dîm Swyddfa Archwilio Cymru, i baratoi'r adroddiad hwn.

**Anthony Barrett**
**Archwilydd Penodedig Cyngor Sir Penfro**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

# Cynnwys


## Crynodeb 4

Argymhellion 6

## Cefndir 7

## Mae penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff i ganiatáu i'r uwch swyddogion optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a derbyn taliad cydnabyddiaeth sy'n gyfwerth â chyfraniad pensiwn y cyflogwr yn anghyfreithlon ac mae taliadau a wnaed yn sgil y penderfyniad hwnnw wedi arwain at eitem cyfrif sy'n groes i'r gyfraith 9

Mae penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff y tu hwnt i'w bwerau ac ni ellir ei weithredu'n gyfreithlon oherwydd ni ellir defnyddio'r pwerau a gyflwynwyd i'r Cyngor i bennu taliad cydnabyddiaeth rhesymol er mwyn osgoi neu leihau effaith deddfwriaeth pensiynau 9

Wrth ddod i benderfyniad, ni chafodd ystyriaethau perthnasol eu hystyried, sy'n groes i egwyddorion *Wednesbury* 10

Mae'r Cyngor wedi methu rhoi sylw dyledus i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus 11

Mae'r penderfyniad yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol 12

Fe wnaeth uwch swyddogion â buddiant personol ac ariannol anghymwys yn y penderfyniad, gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau 12

## Nid oedd y taliad a wnaed yn 2012-13 yn cydymffurfio â phenderfyniad y pwyllgor 14

## Mae angen i'r Cyngor wneud datgeliadau priodol yn natganiadau ariannol 2012-13, a'u hailgymeradwyo 15

## Y camau nesaf 16

# Crynodeb

1 Cyhoeddir yr adroddiad hwn er budd y cyhoedd dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i mi ystyried a ddylwn i, er budd y cyhoedd, ysgrifennu adroddiad ar unrhyw fater a ddaw i'm sylw yn ystod yr archwiliad, er mwyn i gorff archwilio ei ystyried neu ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.

2 Rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn er mwyn tynnu sylw'r cyhoedd at benderfyniad Cyngor Sir Penfro (y Cyngor) a oedd, yn fy marn i, yn anghyfreithlon. Ni all y Cyngor ddefnyddio ei bwerau i bennu taliad cydnabyddiaeth rhesymol er mwyn osgoi neu leihau effaith deddfwriaeth pensiynau. Bu methiannau hefyd o ran trefniadau llywodraethu ac anghysondebau yn y prosesau i bennu cyflogau uwch swyddogion sydd hefyd yn golygu bod y penderfyniad yn anghyfreithlon. Credaf ei bod hi'n bwysig bod y cyhoedd yn gwbl ymwybodol o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â'r Cyngor. Hefyd, mae'n briodol rhoi cyfle i'r Cyngor esbonio'r camau pwysig sydd angen iddo'u cymryd i wella trefniadau a sicrhau bod cyn lleied o berygl â phosibl y gallai'r methiannau hyn godi eto.

3 Ym mis Medi 2012, fe ddes yn ymwybodol o'r ffaith fod Prif Weithredwr y Cyngor wedi penderfynu manteisio ar benderfyniad Pwyllgor Uwch Staff y Cyngor, a oedd yn caniatáu i uwch swyddogion penodol optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a derbyn taliad cydnabyddiaeth cyfwerth â chyfraniad (pensiwn) cyflogwr (y cyfeirir ato fel 'taliad atodol' yn y ddogfen hon) er mwyn gwneud eu trefniadau amgen eu hunain i gynilo ar gyfer ymddeoliad. Byddai'r trefniadau hyn yn berthnasol i unigolyn sy'n penderfynu (oherwydd newidiadau trethu sy'n effeithio ar y buddion pensiwn sy'n daladwy i rai sy'n derbyn cyflog uwch) optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac nad yw'n parhau'n aelod gweithredol sy'n cyfrannu. O gofio natur anarferol y penderfyniad hwn, rhoddais wybod i'r Cyngor y byddwn i'n adolygu hyn fel rhan o'm harchwiliad blynyddol o gyfrifon 2012-13.

4 Yn sgil yr adolygiad, deuthum i'r casgliad bod y penderfyniad a wnaed gan Bwyllgor Uwch Staff y Cyngor ar 28 Medi 2011 i gymeradwyo taliad atodol yn anghyfreithlon. Byddai unrhyw daliad a wnaed cyn y penderfyniad hwnnw felly'n peri bod yr eitem honno yn groes i'r gyfraith.

5 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod y penderfyniad yn anghyfreithlon am y rhesymau canlynol:

a mae penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff y tu hwnt i'w bwerau ac ni ellir ei weithredu'n gyfreithlon oherwydd ni ellir defnyddio pwerau'r Cyngor i bennu taliad cydnabyddiaeth rhesymol er mwyn osgoi neu leihau effaith deddfwriaeth pensiynau;

b wrth ddod i benderfyniad, ni chafodd ystyriaethau perthnasol eu hystyried, sy'n groes i egwyddorion *Wednesbury*;

c mae'r Cyngor wedi methu rhoi sylw dyledus i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus;

ch mae'r penderfyniad yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol; ac

d fe wnaeth uwch swyddogion oedd â buddiant personol ac ariannol anghymwys yn y penderfyniad, gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau.

6 Hefyd, credaf nad yw'r taliadau a wneir yn unol â phenderfyniad y pwyllgor, sef y byddai'r trefniant ar sail dim cost ychwanegol i'r Cyngor.

7 Yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13, talodd y Cyngor £22,269 i'r Prif Weithredwr dan y cynllun 'taliad atodol'. Caiff £28,742 ychwanegol ei dalu i'r Prif Weithredwr ac i uwch swyddog arall dan y cynllun ym mlwyddyn ariannol 2013-14 (hyd at ddiwedd mis Mawrth 2014).

8 Rwyf wedi rhannu fy nghyngor cyfreithiol gyda'r Cyngor. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi cael ei gyngor cyfreithiol ei hun ond wedi penderfynu peidio â darparu'r cyngor hwnnw i mi, gan ddweud nad yw'r cyngor ysgrifenedig yn addas i'w ddatgelu ac na ildiwyd y fraint honno. Mae'r Cyngor wedi darparu papur i mi sy'n cyflwyno'i safbwynt ar bob mater a godwyd. Nid yw'r Cyngor yn derbyn bod y taliad atodol yn anghyfreithlon yn ei hanfod. Fodd bynnag, wrth gydnabod rhai o'r materion gweithdrefnol ac effaith dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, penderfynodd y Cyngor ym mis Medi 2013 fwrw golwg arall ar ei benderfyniad. Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw gamau wedi'u gweithredu hyd yma i fynd i'r afael â hyn.

9 Rwyf hefyd wedi derbyn nifer o gyflwyniadau ysgrifenedig eraill oddi wrth aelodau'r Pwyllgor Uwch Staff ynglŷn â swm a sylwedd yr adroddiad. Er bod y cyfryw gyflwyniadau'n ceisio cyfiawnhau'r penderfyniad a wnaed, nid ydynt wedi newid fy marn ar gyfreithlondeb y penderfyniad dan sylw.

10 Dylai'r Cyngor yn awr ailystyried y datgeliadau a wnaed yn natganiadau ariannol 2012-13 a threfnu bod y datganiadau yn cael eu hail-gymeradwyo.

11 Yn ei ymateb, mae'r Cyngor yn cyflwyno'r safbwynt, mewn sawl lle, nad mater i'r archwilydd yw'r rhain. Fel yr archwilydd penodedig, fy nghyfrifoldeb i yw penderfynu a yw'n ymddangos bod unrhyw eitem cyfrif yn 'groes i'r gyfraith' cyn arfer disgresiwn i benderfynu a ddylid gwneud cais i'r llys am ddatganiad o'r fath; gweler adran 32(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'm swyddogaethau dan adran 22 a 33 o Ddeddf 2004.

12 Gellir olrhain y term 'contrary to law' / 'yn groes i'r gyfraith' yn ôl i adran 247(7) o Ddeddf Iechyd Cyhoeddus 1875 o leiaf. Mae'r achosion pendant ers y dyddiad hwnnw wedi dangos yn glir ar ba sail y gall eitemau cyfrif fod yn groes i'r gyfraith. Mae achos *Hazell v. Hammersmith and Fulham Council London Borough* [1990] 2 QB 697 yn crynhoi'r mater orau. Yn fyr, mae hawl gan archwilydd i ofyn am gymorth os yw'n gallu dangos bod eitem cyfrif yn anghyfreithlon neu'n amhriodol am unrhyw reswm.

# Argymhellion

### Penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff, 28 Medi 2011

**A1** Dylai'r Cyngor diddymu'r penderfyniad a thynnu'r dewis cyfredol ar gyfer uwch staff yn ôl, ac atal unrhyw daliadau yn y dyfodol.

**A2** Os yw'r Cyngor yn penderfynu gwneud penderfyniad newydd, cyfreithlon, yna rhaid iddo fynd i'r afael â'r gwendidau gweithdrefnol a nodwyd yn yr adroddiad hwn a sicrhau ei fod yn mynd ati'n gyfreithlon i arfer disgresiwn wrth bennu taliad cydnabyddiaeth rhesymol a chyflawni ei gyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

### Cyfrifo'r symiau a dalwyd

**A3** Er mwyn gwneud taliadau cyfreithlon yn y dyfodol, dylai'r Cyngor ddangos yn glir bod y swm a dalwyd yn cydymffurfio ag unrhyw benderfyniad a wneir gan y Pwyllgor Uwch Staff.

### Cau cyfrifon 2012-13

**A4** Dylai'r Cyngor wneud datgeliad priodol yn natganiadau ariannol 2012-13 a threfnu bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn ail-gymeradwyo'r datganiadau ariannol.

# Cefndir

13 Cyflwynwyd deddfwriaeth yn Neddf Cyllid 2011 i gyfyngu ar ostyngiad yn y dreth pensiynau i unigolion trwy leihau'r 'lwfans blynyddol' o £255,000 i £50,000 yn 2011-12 a'r lwfans oes gyfan o £1.8 miliwn i £1.5 miliwn, i'w weithredu o flwyddyn dreth 2012-13. Bydd y lwfans blynyddol yn gostwng ymhellach i £40,000, a'r lwfans oes gyfan yn werth £1.25 miliwn o 2014-15 ymlaen.

14 Yn achos gweithwyr cyflogedig mewn cynllun pensiwn 'a buddion wedi'u diffinio', fel Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, codir treth os yw'r cynnydd yng ngwerth buddion pensiwn yr unigolyn yn fwy na'r lwfans blynyddol. O ran cynilion pensiwn sy'n fwy na'u lwfans oes gyfan, codir treth ychwanegol hefyd, fel arfer pan fo'r unigolyn yn derbyn ei bensiwn cyntaf. Amcangyfrifir bod lwfans oes gyfan o £1.5 miliwn yn gyfwerth â phensiwn o oddeutu £75,000 y flwyddyn.

15 Yn sgil y newidiadau hyn, ar 28 Medi 2011, cymeradwyodd Pwyllgor Uwch Staff y Cyngor y canlynol: 'the option of receiving the equivalent of the employer's contribution should be made available to senior staff (...who decide that staying as an active contributing member of the pension scheme would create substantial tax liabilities) so that they make their own alternative arrangements for saving for retirement'. In effect, this creates a pay supplement for any senior staff affected by the new tax provisions who opt out of the LGPS. The payment of the pay supplement representing 'the equivalent of the employer's contribution to the LGPS' was agreed on the basis of 'no additional cost accrues to the Council'.

16 Gwnaed y penderfyniad hwn ar ôl derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden a'r Pennaeth Adnoddau Dynol (yr Adroddiad). Crynodeb ac argymhelliad un dudalen oedd yr adroddiad, ac nid oedd unrhyw farn gyfreithiol neu dystiolaeth berthnasol arall i ategu'r argymhelliad.

17 Ymddangosodd yr eitem fusnes a oedd yn trafod yr Adroddiad fel 'Pension Arrangements' ar agenda cyhoeddedig y cyfarfod. Ni chyhoeddwyd yr Adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor, ac fe'i hystyriwyd mewn sesiwn gaeedig.

18 Roedd yr Adroddiad yn dweud bod rhwymedigaeth ar yr Awdurdod i dalu cyfraniadau pensiwn cyflogwr i bob uwch gyflogai. Er na soniwyd am hyn yn yr Adroddiad, roedd contractau cyflogaeth yr uwch staff yn darparu ar gyfer bod yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Roedd y contractau hyn hefyd yn darparu'r hawl i uwch staff optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ond nid oedd yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth i dalu taliad cydnabyddiaeth ychwanegol i uwch staff a ddefnyddiodd eu hawl i optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

19 Mae'r Adroddiad yn honni bod y newidiadau yn narpariaethau trethu pensiynau wedi lleihau'r cymhelliant i recriwtio ac yn awgrymu bod angen y cynnig er mwyn helpi i recriwtio a chadw staff. Fodd bynnag, nid oedd yr Adroddiad yn cynnwys unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r honiad hwn.

20 Nid yw'r Adroddiad yn mynd i'r afael â'r goblygiadau cyfreithiol, staffio neu gydraddoldeb, ac ni ystyriwyd yr effeithiau penodol ar aelodau unigol o'r uwch staff.

21 Fel uwch staff, roedd gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden a'r Pennaeth Adnoddau Dynol fuddiannau personol ac ariannol yn yr argymhelliad i dalu taliad atodol i uwch staff a optiodd allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Ar ben hynny, cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Uwch Staff yn swyddfa'r Prif Weithredwr (fel yr hysbysebwyd yr agenda cyhoeddedig), ac yntau'n bresennol yno, ac yn ystod blwyddyn ariannol 2012-13, ef oedd unig o'r uwch staff i fanteisio ar y dewis hwn.

## Mae penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff i ganiatáu i'r uwch swyddogion optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a derbyn taliad cydnabyddiaeth sy'n gyfwerth â chyfraniad pensiwn y cyflogwr yn anghyfreithlon ac mae taliadau a wnaed yn sgil y penderfyniad hwnnw wedi arwain at eitem cyfrif sy'n groes i'r gyfraith

### Mae penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff y tu hwnt i'w bwerau ac ni ellir ei weithredu'n gyfreithlon oherwydd ni ellir defnyddio'r pwerau a gyflwynwyd i'r Cyngor i bennu taliad cydnabyddiaeth rhesymol er mwyn osgoi neu leihau effaith deddfwriaeth pensiynau

22 Gwyddys a derbynnir yn gyffredinol (trite law) mai dim ond yr hyn sy'n ofynnol neu wedi'i awdurdodi gan statud y gall awdurdod lleol ei wneud. Gall awdurdod lleol ddefnyddio pwerau o'r fath yn rhesymol ac at ddiben priodol yn unig. Rhaid i awdurdod lleol gyfarwyddo ei hun yn briodol yn gyfreithiol a gweithredu yn unol ag egwyddorion cyfraith weinyddol.

23 Mae gan y Cyngor ddyletswydd, dan adran 112(1)(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (Deddf 1972) i gyflogi swyddogion yn ôl amodau a thelerau rhesymol, gan gynnwys taliad cydnabyddiaeth, fel y gwêl y Cyngor yn dda.

24 Rhaid defnyddio'r ddyletswydd dan adran 112 o Ddeddf 1972 yn rhesymol ac at y dibenion y lluniwyd y ddyletswydd ar eu cyfer, h.y. pennu lefel resymol o daliad cydnabyddiaeth ar gyfer y gwaith a gyflawnir; rhaid i'r taliad cydnabyddiaeth fod yn swm ariannol rhesymol sy'n gyfwerth â'r gwasanaeth dan sylw.

25 Fel gyda phob pŵer statudol, rhaid defnyddio'r pŵer i bennu lefel resymol o daliad cydnabyddiaeth at y diben y rhoddwyd ef. Mae gan yr unigolyn hawl i drefnu ei faterion er mwyn osgoi neu leihau (ond nid efadu) effaith deddfwriaeth arno/arni. Mae pwerau awdurdodau lleol, fodd bynnag, yn wahanol i rai unigolyn preifat. Dim ond yn y ffordd gywir a phriodol a fwriadwyd gan Senedd y DU y gellir defnyddio pwerau statudol at ddibenion cyhoeddus. Nid yw osgoi/lleihau effaith rheolaethau statudol yn enghraifft o ddiben priodol y gall awdurdod lleol ei weithredu yn ei gylch.

26 Ni fyddai'n ddefnydd priodol o bŵer y Cyngor i bennu lefel resymol o daliad cydnabyddiaeth os cafodd ei bennu at ddibenion cyfreithiol amherthnasol fel osgoi neu leihau effaith gwaharddiadau ar ddeddfwriaeth pensiynau.

27 Cafodd penderfyniad Pwyllgor Uwch Staff y Cyngor i dalu taliad cydnabyddiaeth i uwch staff a optiodd allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ei wneud er mwyn lleihau unrhyw effeithiau gostyngiad yn y dreth bensiynau yn sgil Deddf Cyllid 2011, ar y swyddogion hynny.

28 Nid oedd hi'n fwriad gan Senedd y DU, yn fy marn i, i'r pŵer a roddwyd i'r Cyngor gan y Senedd i bennu tâl cydnabyddiaeth rhesymol arwain at osgoi/neu liniaru effaith y cyfyngiadau ar y gostyngiad yn y dreth bensiynau. Nid yw osgoi/lleihau effaith deddfwriaeth yn ddiben priodol y gall awdurdod lleol weithredu yn ei gylch. Am y rheswm sylfaenol hwnnw felly, mae penderfyniad Pwyllgor Uwch Staff y Cyngor ar 28 Medi 2011 y tu hwnt i bwerau'r Cyngor ac ni ellir ei weithredu'n gyfreithlon.

29 Ymateb y Cyngor oedd ceisio dibynnu ar bŵer cymhwysedd cyffredinol yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, adran 1(1). O fewn y ddeddf hon, mae adran 8 yn diffinio 'awdurdod lleol' fel cyngor sir yn Lloegr; cyngor dosbarth; cyngor bwrdeistref sirol yn Llundain; cyngor cyffredin Dinas Llundain; cyngor Ynysoedd Scilly; a chyngor plwyf cymwys. Fel y mae'r Cyngor yn cydnabod, nid yw adran 1(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn berthnasol i awdurdodau yng Nghymru.

30 Rwy'n ystyried nad yw ymateb y Cyngor wedi mynd i'r afael â'r mater sylfaenol o daliad cydnabyddiaeth sy'n rhesymol yn gyfreithlon. Rwy'n dal o'r farn na ellir defnyddio pwerau'r Cyngor i bennu taliad cydnabyddiaeth rhesymol er mwyn osgoi neu leihau effaith deddfwriaeth pensiynau. Mae hwn yn fater cyfraith gyhoeddus a nodwyd gan yr archwilydd fel defnydd amhriodol o bŵer. Mae'n wahanol i'r ymateb cyfraith breifat a nodwyd ym mhapur sefyllfa'r Cyngor.

## Wrth ddod i benderfyniad, ni chafodd ystyriaethau perthnasol eu hystyried, sy'n groes i egwyddorion *Wednesbury*

31 Rhaid gwneud defnydd rhesymol o'r pwerau sydd gan y Cyngor, gan ystyried yr holl ystyriaethau perthnasol: gweler Associated Provincial Picture *Houses v Wednesbury Corporation* [1948] 1KB 223.

32 Mae penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff y tu hwnt i bwerau'r Cyngor am y rheswm ychwanegol na chafodd ystyriaethau perthnasol eu hystyried, sy'n groes i egwyddorion Wednesbury. Yn arbennig:

- a ni chyflwynwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor Uwch Staff ar effaith darpariaethau Deddf Cyllid 2011 ar unrhyw aelod o'r staff y cymeradwywyd taliad atodol iddo;
- b ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos y byddai methu â chymeradwyo'r taliad atodol wedi cael effaith andwyol ar y Cyngor o ran recriwtio a/neu gadw uwch staff; ac
- c ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth i'r Pwyllgor Uwch Staff am oblygiadau cyfreithiol a chydraddoldeb y cynnig i gymeradwyo taliad atodol.

33 Yn fy marn i, nid yw'r Adroddiad i'r Pwyllgor Uwch Staff yn darparu sail resymol ar gyfer gwneud y penderfyniad dan sylw.

34 Mae ymateb y Cyngor yn ystyried bod achosion o dorri dyletswydd ymddiriedol yn debygol o fod yn brinnach nag a feddyliwyd yn wreiddiol, a'i bod hi'n haws na'r disgwyl i fodloni trothwy rhesymoldeb *Wednesbury*. Er nad oedd yr Adroddiad yn un manwl, mae'n dadlau nad oedd yn gamarweiniol ac na chafodd aelodau eu camarwain.

35 O ran rhesymolrwydd y penderfyniad sy'n seiliedig ar egwyddorion *Wednesbury*, rwy'n dal i gredu nad oedd yr Adroddiad i'r Pwyllgor Uwch Staff yn cynnwys digon o dystiolaeth i gefnogi'r syniad o wneud penderfyniad cyfreithlon. Nid oedd Adroddiad y pwyllgor yn mynd i'r afael â goblygiadau cydraddoldeb, cyfreithiol neu staffio ac nid oedd yn darparu unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r mater recriwtio a chadw.

## Mae'r Cyngor wedi methu rhoi sylw dyledus i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

36 Mae Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (Deddf 2010) yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Cyngor i ystyried tri nod penodol - yr angen i ddileu achosion o wahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

37 Mae Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 (Rheoliadau 2011) yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor. Mae Rheoliad 8 yn darparu bod rhaid i'r Cyngor 'wneud unrhyw drefniadau y mae'n credu eu bod yn briodol - (a) i asesu effaith debygol ei bolisïau ac arferion arfaethedig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol…'.

38 Fel y nodwyd uchod, nid yw'r Adroddiad i aelodau o'r Pwyllgor Uwch Staff yn trafod y ffaith a oedd angen ystyried unrhyw faterion cydraddoldeb. Nid yw'n ymddangos fel petai asesiad wedi'i gynnal o effaith debygol y cynigion dan ystyriaeth ar dri nod y ddyletswydd gyffredinol yr oedd gan y Cyngor ddyletswydd statudol i'w hystyried. Ni ddywedwyd wrth y Pwyllgor Uwch Staff, serch hynny, bod y cynnig dan ystyriaeth (cyfle i optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a derbyn taliad cydnabyddiaeth ychwanegol) wedi'i fwriadu ar gyfer uwch staff yn unig (gyda phosibilrwydd o greu mantais anghymesur i weithwyr gwrywaidd a/neu weithwyr hŷn, a gwahaniaethu yn erbyn menywod a/neu weithwyr iau).

39 Felly, roedd y Cyngor wedi torri dyletswydd statudol y sector cyhoeddus trwy fethu ag asesu effaith debygol y cynnig ar ei allu i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno, a rhoi gwybod am yr asesiad i'r Pwyllgor Uwch Staff. Methodd y Cyngor ag ystyried dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

40 Mae ymateb y Cyngor yn cyfeirio at y ffaith fod disgyblaeth dyletswydd statudol y sector cyhoeddus yn ymwneud ag ansawdd gofynnol, nid canlyniad, y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n dadlau nad gorfodi deddf gwahaniaethu yw rôl draddodiadol yr archwilydd.

41 Nid yw'r ymateb yn mynd i'r afael â'r ffaith fod y Cyngor wedi torri dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Methodd y Cyngor â chynnal a rhoi gwybod am asesiad o effaith debygol y cynnig (cyn cyfarfod Pwyllgor Uwch Staff) ar allu'r Cyngor i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno. Yn fy marn i, roedd ansawdd y broses a fabwysiadodd y Cyngor yn wael.

## Mae'r penderfyniad yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol

42 Dan adran 39(2) o Ddeddf 2010, rhaid i'r Cyngor fel cyflogwr beidio â gwahaniaethu yn erbyn un o weithwyr y Cyngor (a) o ran ei delerau cyflogaeth (b) neu'r modd y mae'r Cyngor yn cynnig neu ddim yn cynnig cyfle i weithiwr neu weithwyr gael mynediad i 'fuddion, cyfleuster neu wasanaeth'.

43 Yn unol ag adran 19 o Ddeddf 2010, mae gwahaniaethu yn digwydd os yw darpariaeth, maen prawf neu ymarfer yn rhoi grŵp sy'n rhannu nodwedd warchodedig dan anfantais benodol. Mae oedran a rhyw yn nodweddion gwarchodedig. Mae gweithwyr iau a gweithwyr benywaidd dan anfantais gan eu bod yn cael eu trin yn llai ffafriol na gweithwyr hŷn a gweithwyr gwrywaidd, gan fod y rhai iau a/neu fenywaidd yn llai tebygol o fod yn gymwys i elwa ar daliad atodol cymeradwy. Nid yw osgoi/lleihau effaith y cyfyngiadau ar ostyngiad yn y dreth bensiynau yn nod cyfreithlon y gall y Cyngor ddibynnu arno er mwyn gwrthbrofi honiad o wahaniaethu anuniongyrchol.

44 Roedd penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol (fel y diffiniwyd yn adran 19 o Ddeddf 2010). Er y gellir tybio y byddai gweithwyr yn y grŵp hwnnw ar eu hennill drwy barhau i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nid yw hynny'n ateb yr honiad o wahaniaethu anuniongyrchol.

45 Mae papur sefyllfa'r Cyngor yn nodi bod gwahaniaethu yn gamwedd statudol, a orfodir gan unigolyn a all (o fewn tri mis i'r weithred y cwynir amdano) gwyno bod rhywun wedi gwahaniaethu yn ei erbyn. Mae'r Cyngor o'r farn nad mater i'r archwilydd yw cadarnhau honiadau unigol na wnaed gan unrhyw unigolyn.

46 Rwy'n dal o'r farn bod y penderfyniad yn gyfystyr â gwahaniaethu anuniongyrchol a bod y 'taliad atodol' yn groes i'r gyfraith.

## Roedd uwch swyddogion oedd â buddiant personol ac ariannol anghymwys yn y penderfyniad wedi cyfrannu at y broses benderfynu

47 Mae unigolyn yn anghymwys i gyfrannu at brosesau penderfynu awdurdod lleol os oes posibilrwydd gwirioneddol y byddai'r unigolyn yn cael ei ddylanwadu gan unrhyw fuddiant personol neu ariannol yng nghanlyniad y penderfyniad. Mae bod yn anghymwys i gymryd rhan yn berthnasol i swyddog sy'n darparu cyngor ysgrifenedig neu lafar i bwyllgor neu fwrdd penderfynu.

48 Rhaid datgan unrhyw fuddiant personol neu ariannol ac nid oes gan unigolyn o'r fath hawl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau oni bai bod y buddiant hwnnw'n rhy bellgyrhaeddol neu ddi-nod i'w ystyried. Yn gyffredinol, bydd unigolyn â buddiant anghymwys sy'n cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau yn dirymu'r penderfyniad hwnnw (gweler achos *Kirkstall Valley a R v Hendon RDC ex parte Chorley* [1933] 2 KB 696).

49 Mae penderfyniad y Pwyllgor Uwch Staff felly'n anghyfreithlon oherwydd bod gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Hamdden a'r Pennaeth Adnoddau Dynol, oedd ag adroddiad gerbron y pwyllgor, fuddiant personol ac ariannol anghymwys yn y penderfyniad, fel uwch swyddogion a oedd yn gymwys i elwa ar y taliad atodol arfaethedig. Hefyd, roedd y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn bresennol yn y cyfarfod ac ni wnaethant ddatgan unrhyw fuddiant.

**50** Mae'r broses benderfynu yn ehangach na'r penderfyniad ei hun ac yn cynnwys presenoldeb swyddogion mewn cyfarfod. Mae unigolyn yn anghymwys i gymryd rhan yn y broses benderfynu os oes posibilrwydd gwirioneddol y byddai buddiant ariannol neu bersonol yn dylanwadu ar ganlyniad y penderfyniad (gweler *R v Secretary of State for the Environment ex parte Kirkstall Valley Campaign Ltd* [1996] 3 All ER 304; *Porter v Magill* [2002] 2 AC 357).

**51** Rwy'n fodlon bod swyddogion wedi cymryd rhan yn y broses benderfynu tra oedd ganddynt fuddiant ariannol anghymwys yng nghanlyniad y penderfyniad.

## Nid oedd y taliad a wnaed yn 2012-13 yn cydymffurfio â phenderfyniad y pwyllgor

52 Penderfynodd y Pwyllgor Uwch Staff i gynnig y dewis hwn i uwch staff ar y sail na fyddai'n golygu unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor.

53 Ar gyfer 2012-13, cafodd taliad i'r Prif Weithredwr ar ôl iddo optio allan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ei wneud ar sail 14.7 y cant o'i gyflog blynyddol, gyda lleihad er mwyn ystyried cyfraniadau yswiriant gwladol ychwanegol y cyflogwr.

54 Mae'r gyfradd cyfraniadau cyflogwr yn seiliedig ar 'gyfradd gyffredin' o 12 y cant, gyda chanran ychwanegol wedi'i chyflwyno yn seiliedig ar asesiad actiwaraidd teirblwydd o'r costau ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn sicrhau cronfa bensiwn gytbwys. Yn achos y Cyngor, mae'r ganran ychwanegol yn rhan o'r 14.7 y cant.

55 Yn fy marn i, byddai taliad sy'n seiliedig ar 14.7 y cant yn caniatáu ar gyfer talu'r cyfraniad ychwanegol i'r Prif Weithredwr, yn hytrach na'i dalu i'r gronfa bensiwn. O'r herwydd, byddai rhywfaint o gostau ychwanegol i'r Cyngor, gan y byddai asesiad actiwaraidd y dyfodol yn seiliedig ar asedau cronfa na dderbyniodd y cyfraniadau ychwanegol. Hefyd, mae angen i'r Cyngor ystyried yr effaith ar gyfraniadau yswiriant gwladol, gan fod statws cyfraniadau yswiriant gwladol y Prif Weithredwr wedi newid ar ôl iddo optio allan o'r cynllun pensiwn.

56 Felly, nid wyf yn derbyn bod y taliad a wnaed i'r Prif Weithredwr yn cyd-fynd â phenderfyniad y pwyllgor 'i beidio achosi unrhyw gost ychwanegol i'r Cyngor', ac rwyf wedi gofyn i'r Cyngor adolygu ei ffigurau.

# Mae angen i'r Cyngor wneud datgeliadau priodol yn natganiadau ariannol 2012-13, a'u hailgymeradwyo

57 Cafodd datganiadau ariannol 2012-13 y Cyngor eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol mewn cyfarfod ar 30 Medi 2013. Fel yr esboniwyd yn yr adroddiad *Audit of Financial Statements*, nid oeddwn yn gallu cyflwyno adroddiad archwilio ar y pryd gan fy mod i wrthi'n ystyried ymateb y Cyngor i'm barn bod yr eitem cyfrif yn anghyfreithlon.

58 Gan fy mod i'n dal o'r farn bod y taliadau i'r Prif Weithredwr yn anghyfreithlon, dylid datgelu hyn yn llawn yn y datganiadau ariannol nawr, a bydd angen ail-gymeradwyo'r rhain eto gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Byddai hyn wedyn yn caniatáu amser i mi roi barn archwiliad diamod, gan gyfeirio at y datgeliad mewn paragraff 'pwysleisio mater'.

59 Os na wneir datgeliad priodol, yn fy marn i, byddai'r datganiadau ariannol wedi'u cam-ddatgan yn sylweddol (o ystyried natur y trafodion a'r datgeliadau) a bydd angen i mi fynegi barn amodol.

# Y camau nesaf

**60** Dan adran 25 o Ddeddf 2004, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr adroddiad hwn mewn cyfarfod llawn o'r Cyngor o fewn mis i ddyddiad yr adroddiad hwn. Yn y cyfarfod, rhaid i'r Cyngor benderfynu:

- **a** a yw'r adroddiad yn gofyn iddo gymryd unrhyw gamau;
- **b** a yw am dderbyn argymhellion yr adroddiad; a
- **c** pha gamau i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.


**Cydnabyddiaeth**

**61** Hoffwn ddiolch i swyddogion ac aelodau'r Cyngor am eu cydweithrediad yn ystod yr archwiliad.




Anthony Barrett
Archwilydd Penodedig
30 Ionawr 2014